Siarad yn y Pwyllgor Cynllunio

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i ymestyn cyfranogiad y cyhoedd yn y broses gynllunio.

Mae'r broses ceisiadau cynllunio yn cynnwys gweithdrefnau helaeth o ran ymgynghori a hysbysu cymdogion. Yn ogystal, mae'r daflen hon yn esbonio'r weithdrefn ar gyfer ymgeiswyr/asiantau, cefnogwyr, gwrthwynebwyr a Chynghorau Tref/Cymuned i siarad yn y Pwyllgor Cynllunio. Bydd trydydd partïon ond yn cael siarad os yw'r cais ar y rhaglen. Bydd siarad cyhoeddus yn cael ei ystyried yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor lle mae'r cais yn cael ei ystyried, ond hefyd mewn cyfarfodydd dilynol os bydd y cais wedi ei ohirio neu fod cais am Ymweliad Safle. Nid yw'r protocol yn berthnasol i Gynghorwyr Sir ac eithrio unrhyw rai sydd wedi datgan cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu (sydd â hawl i siarad am uchafswm o 3 munud). Y Cadeirydd sy'n pennu gweithrediad y cyfarfod, ac o dan amgylchiadau eithriadol mae gan y Cadeirydd y disgresiwn i wyro oddi wrth y protocol hwn.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio (y Pwyllgor), fel arfer yn cyfarfod bob 4 wythnos ar brynhawn dydd Mercher, gan ddechrau am 13:00 o'r gloch yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

Gofyn i gael siarad yn y Pwyllgor

Mae'r daflen hon ar gael ar ein gwefan yn - www.siryffint.gov.uk/cynllunio

Mae dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio hefyd i'w cael yma o dan y dudalen 'Penderfyniadau Cynllunio a Phwyllgorau'.

Gall unrhyw un sydd wedi gwneud sylwadau ysgrifenedig ofyn i siarad yn y Pwyllgor ond dim ond un person allwn ni ganiatáu i siarad o blaid (yr ymgeisydd neu'r asiant fel arfer) ac un arall yn erbyn y cynnig.

Pan fo cais rydych wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig arno yn mynd i gael ei benderfynu gan y Pwyllgor (yn hytrach na phenderfyniad wedi'i ddirprwyo), byddwn yn cysylltu â chi unwaith ein bod yn gwybod dyddiad y Pwyllgor, gan roi'r cyfle i chi gofrestru i siarad. Rhaid i geisiadau ddod i law 48 awr cyn y cyfarfod pwyllgor sydd wedi'i drefnu a bydd manylion eich cais yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata.

Pan fyddwch wedi cael gwybod am ddyddiad y pwyllgor a'ch bod yn dymuno cofrestru i siarad yn y Pwyllgor, cysylltwch â ni ar 01352 703 286 neu anfonwch e-bost i publicspeaking@flintshire.gov.uk. Bydd rhaid i chi nodi eich enw, a rhif ffôn yn ystod y dydd, pa gais rydych yn dymuno siarad arno, ac a ydych yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig (yn unol â'r sylwadau rydych wedi'u gwneud)

Os ydych eisiau siarad yn y Pwyllgor mae'n rhaid i chi ganiatáu i'r Cyngor rannu eich enw a'ch rhif ffôn yn ystod y dydd gyda phobl eraill o'r un farn sydd wedi gofyn am gael siarad. Gofynnir hefyd i chi pwy rydych yn ei gynrychioli e.e. ymgeisydd/asiant, cefnogwr, gwrthwynebydd neu Gyngor Tref/Cymuned er mwyn caniatáu rhai sydd â safbwyntiau tebyg i weld a ellir dod i gytundeb ynghylch pwy sydd i siarad. Bydd yr ymgeisydd/asiant yn cael blaenoriaeth dros eraill a allai fod eisiau siarad o blaid, ond o safbwynt y gwrthwynebwyr, os na fyddant yn dod i gytundeb, y person cyntaf a gofrestrwyd i siarad fydd yn cael gwneud. Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan y Cyngor Cymuned/Tref dim ond un person fydd yn cael siarad o blaid, ond gall y Cyngor Cymuned/Tref ddewis pwy fydd yn gwneud.

Pan gaiff y rhestr o siaradwyr ei llunio, bydd yr ymgeisydd/asiant (neu'r person cyntaf o blaid) a'r person cyntaf yn erbyn ar y rhestr o'r rhai a fynegodd ddiddordeb yn cael eu hysbysu a chael gwybodaeth ynghylch: -

- yr argymhelliad
- ble gellir archwilio'r adroddiad
- trefniadau ar gyfer dod i'r Pwyllgor (e.e. amser, lleoliad, parcio, anabl, mynediad).
- Dolen i'r ddogfen hon

Os yw'r person cyntaf o blaid neu yn erbyn ar y rhestr yn penderfynu peidio â siarad, byddwn yn cysylltu â'r ail berson ar y rhestr ac yn y blaen.

Bydd y rhaglen a'r adroddiadau ar gael yn Neuadd y Sir o leiaf dri diwrnod cyn y cyfarfod ac ar ein gwefan yn: www.flintshire.gov.uk/planningcommittee. Bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol a dderbynnir ar ôl i'r adroddiadau gael eu hysgrifennu ar gael yn y cyfarfod.

Diwrnod y Pwyllgor

- Am 12:45, cewch eich cyfarch gan Staff Cymorth Cynllunio a fydd yn esbonio ble y byddwch yn ei stedd a'r gweithdrefnau.
- Bydd y Staff Cymorth Cynllunio wedi rhoi gwybod ymlaen llaw i'r Cadeirydd am y rhestr o siaradwyr cyn i'r cyfarfod ddechrau.
- Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod ac, os oes angen, yn egluro unrhyw newidiadau i'r rhaglen.
- Bydd y Swyddog Cynllunio yn cyflwyno'r cais yn fras drwy gyfeirio at y cynnig ac yn amlinellu unrhyw bwyntiau neu faterion allweddol.
- Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwr cyntaf yn erbyn y cais, ac yna'r siaradwr o blaid y cais ac yna cynrychiolydd y Cyngor Tref / Cymuned, ar yr amod eu bod wedi cyflwyno hysbysiad o'u dymuniad i siarad yn unol â'r protocol.
- Bydd pob siaradwr yn eistedd mewn safle penodol gyda meicroffon a byddant yn cael uchafswm o dri munud i gyflwyno eu hachos. Unwaith y bydd y siaradwr yn dechrau, bydd y clerc pwyllgor yn dechrau

- cloc a fydd yn gwneud signal sain unwaith y bydd y tri munud ar ben. Gofynnir i unrhyw un sy'n parhau am fwy na thri munud gloi eu datganiad a dychwelyd i'w sedd cyn y gwahoddir siaradwr arall i'r meicro ffon.

Paratoi eich datganiad i'r Pwyllgor

Cyn siarad yn y Pwyllgor dylech baratoi datganiad clir, cryno, wedi'i ategu â thystiolaeth, yn esbonio pam rydych yn credu y dylai'r cais cynllunio y mae gennych ddiddordeb ynddo gael ei gymeradwyo neu ei wrthod. Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried pob cais ar sail cynllunio yn unig. Os byddwch yn codi materion na all y pwyllgor fel arfer eu hystyried, ni fydd y Pwyllgor yn gallu rhoi ystyriaeth iddynt. Ni fyddwch yn cael eich caniatáu i ddosbarthu neu arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig neu ffotograffig, felly wrth baratoi eich datganiad, dylech geisio esbonio:

- sut, yn eich barn chi, y mae'r cynigion yn cydymffurfio neu'n gwrthdaro â pholisïau cynllunio cyfredol (e.e. y Cynllun Datblygu Unedol) a chanllawiau cynllunio perthnasol a gyhoeddwyd gan y Cyngor, a pha effeithiau, os o gwbl, y bydd y cynigion yn eu cael ar eiddo cyfagos, a'r prif fanteision neu anfanteision i chi a'r gymuned ehangach
- Ni ddylai cynnwys eich araith wneud beirniadaeth bersonol am unrhyw unigolion neu ddefnyddio iaith anweddus, fel arall gall y cadeirydd derfynu eich araith. Fel arfer, mae'r Pwyllgor yn cynnal ei faterion yn yr iaith Saesneg, ac os ydych yn dymuno annerch y Pwyllgor yn Gymraeg, nodwch hynny wrth wneud cais i siarad fel y gellir trefnu cyfleusterau cyfieithu.

Mae'r rhestrau isod yn amlinellu materion y gellir ac na ellir eu hystyried fel arfer, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr.

Materion y gall y pwyllgor eu hystyried fel arfer

» Cysgodi
» Edrych drosodd a cholli preifatrwydd
» Digon o le parcio a gwasanaethu
» Natur ormesol y cynnig
» Colli coed
» Colli cynefinoedd ecolegol
» Dyluniad ac edrychiad
» Cynllun a dwysedd yr adeiladau
» Effaith ar Adeilad(au) Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth
» Mynediad a diogelwch y briffordd
» Creu traffig
» Sŵn ac aflonyddwch o'r cynllun
» Aflonyddu gan arogleuon
» Amwynder gweledol y cyhoedd (nid colli golygfa unigolyn preifat)
» Risg llifogydd
» Creu Cyflogaeth

Materion na all y pwyllgor eu hystyried fel arfer

» Colli gwerth eiddo unigol
» Colli golygfa
» Anghydfodau terfyn, gan gynnwys llechfeddiant sylfeini neu gwteri
» Cyfamodau neu gytundebau preifat
» Ymddygiad neu hanes personol yr ymgeisydd
» Cymhellion yr ymgeisydd
» Elw posibl i'r ymgeisydd neu elw o'r cais
» Hawliau preifat i olau
» Hawliau tramwy preifat
» Difrod i eiddo
» Amharu yn ystod unrhyw gyfnod adeiladu
» Colli masnach a chystadleuaeth
» Oed, iechyd, statws, cefndir a phatrymau gwaith y gwrthwynebydd
» Yr amser a gymerir i wneud y gwaith
» Cynhwyster draeniau preifat
» Technegau adeiladu a strwythurol
» Alcohol, hapchwarae neu drwyddedau eraill

Ar ôl i chi siarad

Bydd y cais yn cael ei drafod gan y pwyllgor gydag aelod yn cynnig ac yn eilio argymhelliad cyn i'r ddadl ddechrau. Ni ddylai aelodau o'r cyhoedd siarad na throsglwyddo gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor pan ei fod yn cael ei gynnal. Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod am y penderfyniad i'r cyhoedd a bydd Clerc y Pwyllgor yn cofnodi pwy a siaradodd yn y Pwyllgor.

Ymddygiad

Swydd y Cadeirydd yw cynnal trefn a disgyblaeth yn y Pwyllgor Cynllunio. Gall aelodau o'r cyhoedd wylio'r trafodion ond ni allant annerch y cyfarfod, oni bai eu bod yn cael eu gwahodd i wneud hynny. Ar bob adeg arall, dylai'r cyhoedd gadw mor dawel ag y bo modd. Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y cyfarfod neu'n aflonyddu mewn ffordd arall, efallai y bydd y Cadeirydd yn gofyn iddo neu iddi adael yr ystafell.

Hysbysiad am Weddarlledu

Mae'n bosibl y caiff y cyfarfodydd yma eu ffilmio a/neu eu ddarlledu'n ddiweddarach ar wefan y Cyngor neu mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddi. Caiff y cyfarfod cyfan ei ffilmio, ar wahân i eitemau cyfrinachol neu eitemau eithriedig, a bydd y ffilm ar y wefan am chwe mis.

Yn gyffredinol, ni chaiff y rhannau hynny o'r Siambr lle mae'r cyhoedd yn eistedd eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i mewn i'r Siambr, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio ac i'r delweddau hynny a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, ffoniwch aelod o Dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345

Map o safle Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug



If you would like a copy of this publication in your own language or in an alternative format such as large print, braille or on tape, please contact 01352 703 286